



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cofrestr Genedlaethol o Bolisi Dirymu a Gwrthod Trwyddedau Tacsî
(NR3).

Dyddiad cymeradwyo: 1/12/2020

1. Mae'r polisi hwn yn ymdrin â defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fel yr Awdurdod Trwyddedu, o'r gallu i gyrchu a defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddirymiadau a Gwrthodiadau Trwyddedau Tacsis (NR3), sef mecanwaith i awdurdodau trwyddedu rannu manylion unigolion sydd wedi cael trwydded cerbyd hacni neu Gerbyd Hurio Preifat (PHV) neu sydd â chais wedi'i gwrthod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn yr Awdurdod Trwyddedu – hynny yw, asesu a yw unigolyn yn berson addas a phriodol i ddal trwydded cerbyd hacni neu PHV.
2. Cyflogir swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a Chyngor Bro Morgannwg sy'n gweithredu fel y Rheolwr Data mewn perthynas â'r swyddogaethau a gyflawnir ar ran Awdurdod Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
3. Mae'r NR3 yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw wrthodiad i roi trwydded gyrrwr tacsï neu ddirymiad. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig yng nghyd-destun cais dilynol i awdurdod arall am drwydded gyrrwr gan berson â thrwydded wedi'i dirymu neu ei gwrthod yn y gorffennol.
4. Drwy gydol y polisi hwn cyfeirir at 'drwydded gyrrwr tacsï'. Mae'r term generig hwn yn cynnwys trwydded gyrrwr cerbyd hacni, trwydded gyrrwr hurio preifat, a thrwydded gyfun/deuol.
5. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymuno â'r NR3. Mae hyn yn golygu, pan wrthodir cais am drwydded gyrrwr tacsï, neu pan gaiff trwydded gyrrwr tacsï sy'n bodoli eisoes ei dirymu, y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhoi ar y gofrestr. Mae'r holl brosesu a rhannu data a wneir gan CBSP ar yr NR3 a gydag awdurdodau eraill mewn perthynas â chofnodion ar yr NR3 yn cael eu cynnal yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
6. Bydd y wybodaeth a gofnodir ar NR3 ei hun yn gyfyngedig i:

Enw
Dyddiad geni
Cyfeiriad a manylion cyswllt
Rhif yswiriant gwladol
Rhif trwydded yrru
Penderfyniad a wnaed
Dyddiad y penderfyniad
Dyddiad y daw'r penderfyniad yn effeithiol

7. Bydd y wybodaeth gofrestr uchod yn cael ei chadw ar NR3 am gyfnod o 25 mlynedd. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw gan systemau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd data'n cael ei gadw ar y gofrestr i helpu'r Awdurdod Trwyddedu i gyflawni ei ddyletswydd statudol i fodloni bod person yn addas a phriodol i ddal trwydded tacsï neu PHV. Nodir y dyletswyddau hyn o dan adrannau 51, 59 a 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; adrannau 13, 16 a 17 o Ddeddf Cerbydau Hurio Preifat (Llundain) 1998; adran 3 o Reoliadau Cerbydau Hurio Preifat (Trwyddedau Gyrwyr PHV Llundain) 2003; adrannau 25 a 30 o Orchymyn Cabiau Llundain 1934; adrannau 9 a 19 o Ddeddf Cyngor Dinas Plymouth 1975 ac adran 46 o Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847. Yn unol â'r diben hwn, bydd y data'n aros ar NR3 am 25 mlynedd ac yna bydd yn cael ei ddinistrio mewn modd diogel.

Egwyddorion cyffredinol

8. Pan dderbynnir cais am drwydded gyrrwr newydd, neu gais i adnewyddu trwydded gyrrwr sy'n bodoli eisoes, bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn chwilio'r NR3. Dim ond swyddog sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r NR3 ac sy'n gweithredu yn unol â'r polisi hwn gaiff wneud y chwiliad. Pe gwelir manylion a allai ymwneud â'r ymgeisydd, gofynnir i'r awdurdod a roddodd y wybodaeth honno am ragor o fanylion.
9. Dim ond â'r cais hwnnw y defnyddir unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan unrhyw awdurdod arall mewn perthynas â chais (y data ymgeisio) a'r penderfyniad a wnaed, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Cedwir unrhyw ddata a dderbynnir ond cyhyd ag sy'n angenrheidiol wrth benderfynu ar y cais. Bydd y cyfnod yn cynnwys prosesu'r cais hwnnw, gwneud penderfyniad, hysbysu'r ymgeisydd o ganlyniad y penderfyniad hwnnw, a'r prosesau apelio.
10. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd unrhyw ddata cais o'r fath yn cael ei gadw am gyfnod o ddim mwy na 35 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y cais.
11. Pan wneir apêl i'r Llys Ynadon, bydd y data'n cael ei gadw hyd nes y penderfynir neu y rhoddir y gorau i'r apêl honno. Pan benderfynir ar yr apêl gan Lys yr Ynadon, mae hawl arall i apelio i Lys y Goron. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y data'n cael ei gadw am gyfnod o ddim mwy na 35 diwrnod o ddyddiad penderfyniad Llys yr Ynadon. Os bydd apêl yn cael ei gwneud i Lys y Goron, bydd y data'n cael ei gadw hyd nes y penderfynir neu y rhoddir y gorau i'r apêl honno. Pan benderfynir ar yr apêl gan Lys yr Ynadon neu Lys y Goron, mae'n bosibl apelio yn erbyn y penderfyniad *by way of case stated*. Yn unol â hynny, bydd y data'n cael ei gadw am gyfnod o ddim mwy na 35 diwrnod o ddyddiad penderfyniad Llys y Goron (os penderfynwyd gan Lys yr Ynadon, mae'r cyfnod cadw eisoes wedi cael sylw).

Os penderfynir ar apêl *by way of case stated*, bydd y data'n cael ei gadw nes bod yr holl achosion llys sy'n ymwneud â'r apêl *by way of case stated* (a fydd yn cynnwys apeliadau posibl i'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys) wedi'u penderfynu.

12. Bydd y data'n cael ei gadw'n ddiogel yn unol â pholisi Cyngor Bro Morgannwg ar gadw data personol yn ddiogel ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

13. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, caiff y data ei ddileu a/neu ei ddiarhio'n ddiogel yn unol â pholisi cadw Bro Morgannwg. Manylir ar hyn yn y ddolen ganlynol:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Chwilio'r NR3 am ymgeiswyr

14. Pan wneir cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am drwydded gyrrwr tacsï newydd neu i adnewyddu trwydded gyrrwr tacsï, bydd y Cyngor yn chwilio'r NR3.

15. Bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud ac yna'n cadw cofnod ysgrifenedig clir o bob chwiliad a wneir o'r gofrestr. Bydd hyn yn manylu ar:

Dyddiad y chwiliad;

Yr enw neu'r enwau a chwiliwyd;

Y rheswm dros chwilio (cais newydd neu adnewyddiad);

Canlyniadau'r chwiliad; a

Y defnydd a wneir o ganlyniadau'r chwiliad (bydd y wybodaeth hon yn cael ei nodi ar y gofrestr yn ddiweddarach).

16. Ni chaiff y cofnod hwn ei gyfuno ag unrhyw gofnodion eraill (h.y. â'r gofrestr o drwyddedau a roddwyd) a chaiff ei gadw am y cyfnod cadw o 25 mlynedd. Ni fydd unrhyw ddata'n cael ei drosglwyddo o'r Deyrnas Unedig.

17. Os bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn darganfod unrhyw gyfatebiaeth (h.y. fod cofnod yn y gofrestr ar gyfer yr un enw a'r manylion adnabod) bydd cais yn cael ei wneud i'r awdurdod a roddodd y manylion hynny (yr awdurdod cyntaf) am ragor o wybodaeth am y cofnod hwnnw. Bydd y cais hwnnw hefyd yn cynnwys manylion Polisi Diogelu Cyngor Bro

Morgannwg mewn perthynas â defnyddio unrhyw ddata a geir o ganlyniad i'r broses hon.

18. Bydd y cais hwn yn cael ei wneud yn ysgrifenedig yn unol â'r ffurflen yn Atodiad 1 i'r polisi hwn.
19. Bydd yn cael ei e-bostio i gyfeiriad cyswllt yr awdurdod a roddodd y manylion hynny (yr awdurdod cyntaf) a bydd hynny yn cael eu nodi yn y gofrestr. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth drwy gyfeiriad e-bost generig i sicrhau mai dim ond swyddogion a enwir (y gellir dilysu eu manylion) fydd yn cyfnewid gwybodaeth.

Ymateb i gais a wnaed am ragor o wybodaeth am gofnod NR3

20. Pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn cais am ragor o wybodaeth gan awdurdod arall, bydd cofnod ysgrifenedig clir yn cael ei wneud o'r cais sydd wedi dod i law. Ni chaiff y cofnod hwn ei gyfuno ag unrhyw gofnodion eraill (h.y. â'r gofrestr o drwyddedau a roddwyd) a chaiff ei gadw ar y gofrestr am gyfnod cadw o 25 mlynedd.
21. Yna, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu sut i ymateb i'r cais. Nid yw'n gyfreithlon darparu gwybodaeth fel ymateb cyffredinol i bob cais.
22. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw gais o dan delerau'r Ddeddf Diogelu Data a GDPR.
23. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw gais o dan delerau Deddf Diogelu Data 2018 a bydd yn ystyried sut y bydd yr awdurdod arall (yr ail awdurdod) yn defnyddio'r data, sut y bydd yn storio'r data hwnnw i atal datgeliad anawdurdodedig, y cyfnod cadw ar gyfer y data hwnnw, a'r mecanwaith ar gyfer dileu neu ddiinstrio'r data ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Os yw'r ail Awdurdod wedi mabwysiadu polisi tebyg i hyn, disgwylir y dylai hynny fod yn broses weddol syml. Os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod cais diogelu data'r awdurdod arall (yr 2il awdurdod) yn briodol, yna rhoddir ystyriaeth i ba wybodaeth fydd yn cael ei datgelu. Penderfynir ar hyn gan swyddog sydd wedi'i hyfforddi i gyflawni'r swyddogaeth hon.
24. Rhaid i bob datgeliad fod yn ystyriol, yn angenrheidiol, ac yn gymesur, gan ystyried hawliau testun y data a sefyllfa a chyfrifoldebau gyrywyr tacsî. Caiff data ei gadw ar gofrestr NR3 am gyfnod o 25 mlynedd, ond ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â phob cofnod. Bydd teilyngdod pob cais yn cael ei ystyried yn unigol.
25. Bydd unrhyw wybodaeth am euogfarnau troseddol yn cael ei rhannu o dan y polisi hwn a bydd y prosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a GDPR. Bydd y swyddog yn cofnodi pa gamau a gymerwyd a pham. Bydd Swyddogion yr

Awdurdod Trwyddedu yn gwneud ac yna'n cadw cofnod ysgrifenedig clir o bob penderfyniad a wneir o ganlyniad i gais gan awdurdod arall. Bydd hyn yn manylu ar:

Y dyddiad y derbyniwyd y cais
Yr enw neu'r enwau a chwiliwyd
Os darparwyd unrhyw wybodaeth neu ddim
Os darparwyd gwybodaeth, pam y'i darparwyd (a manylion unrhyw gyngor pellach a gafwyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud)
Os na ddarparwyd gwybodaeth, pam na'i ddarparwyd (a manylion unrhyw gyngor pellach a gafwyd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud) ac
Sut a phryd y cafodd y penderfyniad (ac unrhyw wybodaeth) ei gyfleu i'r awdurdod sy'n gwneud cais.

26. Ni chaiff y cofnod hwn ei gyfuno ag unrhyw gofnodion eraill (h.y. â'r gofrestr o drwyddedau a roddwyd) a chaiff ei gadw am y cyfnod cadw o 25 mlynedd.

Defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i gais i awdurdod arall

27. Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn gwybodaeth o ganlyniad i gais a wnaed i awdurdod arall, bydd yn ystyried y wybodaeth honno wrth benderfynu ar y cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded gyrrwr tacsï. Bydd hyn yn unol â'r broses arferol ar gyfer penderfynu ar geisiadau.

28. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud ac yna'n cadw cofnod ysgrifenedig clir o'r defnydd a wneir o ganlyniadau'r chwiliad (ychwanegir y wybodaeth hon at y gofrestr a nodir uchod).

29. Gall gwybodaeth a dderbynnir gyfiawnhau rhoi pwysau sylweddol iddo, ond nid dyma'r unig sail ar gyfer unrhyw benderfyniad y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ei wneud mewn perthynas â'r cais.

30. Os bydd unrhyw berson yn dymuno codi mater sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth polisi a diogelu data hon, neu'r hawliau a gynigir i bynciau data o dan y GDPR, dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth ac i gael manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Y Swyddog Diogelu Data
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU

01446 700111

DPO@valeofglamorgan.gov.uk

Am gyngor annibynnol ynglŷn â diogelu data, preifatrwydd, materion rhannu data, neu i wneud cwyn, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2il lawr
Churchill House
Churchill Way
Caerdydd
CF10 2HH

029 2067 8400 wales@ico.org.uk

ico.org.uk

Atodiad 1 - ffurflen datgelu gwybodaeth

Cyflwynir y ffurflen hon yn dilyn chwiliad o'r Gofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau (NR3).

Enw'r Awdurdod Trwyddedu sy'n gofyn am wybodaeth:

Cyfeirnod yr Awdurdod sy'n ceisio:

Enw'r Awdurdod Trwyddedu y ceisir gwybodaeth ganddyn nhw:

Enw'r sawl sy'n destun i'r cais:

Penderfyniad o ran y sawl sy'n destun i'r cais: Gwrthod / dirymu

Manylion eraill ar gyfer y cofnod hwn:

Cyfeiriad:.....

Trwydded yrru #:

Yswiriant Gwladol #:

Cyfeirnod:

Datganiad yr Awdurdod sy'n ceisio:

Mae'r awdurdod drwy hyn yn cadarnhau bod y wybodaeth hon yn cael ei cheisio mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaeth statudol i sicrhau bod deiliaid trwyddedau tacsis / PHV yn bersonau addas a phriodol, a bod prosesu'r data hwn felly yn angenrheidiol wrth gyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd.

Dim ond mewn cysylltiad â'r cais penodol hwn ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data y caiff y wybodaeth a ddarperir ei phrosesu gan yr Awdurdod. Dim ond cyhyd ag y bo angen y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw ac yn unol â Pholisi Cadw Data'r Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Awdurdod i gynnal asesiad ar ddatgeliad, gellir gweld manylion polisi'r Awdurdod hwn mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth a gafwyd o ganlyniad i'r cais hwn yn:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Llofnod:

Enw:.....

Safle:.....

Dyddiad:.....

(I'w gwblhau gan yr awdurdod sy'n darparu) Rhagor o wybodaeth i gefnogi'r penderfyniad a gofnodwyd ar NR3 mewn perthynas â'r unigolyn a enwir uchod

Datganiad yr Awdurdod sy'n darparu

Mae'r Awdurdod drwy hyn yn cadarnhau ei fod wedi cynnal asesiad.

Mae hefyd yn cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir ac yn gyfoes, a'i bod wedi'i darparu ar ôl i'r Awdurdod ystyried cymesuredd a chyfreithlonrwydd gwneud y datgeliad hwn yn drylwyr. Mae'r wybodaeth yn adlewyrchu ar ba sail y gwnaed y penderfyniad a gofnodwyd yn y Gofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau. Os daw'r Awdurdod yn ymwybodol nad yw'r wybodaeth hon yn gywir mwyach, byddwn yn cynghori'r Awdurdod a enwir uchod yn unol â hynny.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cadarnhau, fel rhan o'r sail ar gyfer sicrhau, cadw, neu wneud cais am drwydded tacsï / PHV, fod yr unigolyn uchod a enwir wedi cael gwybod y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Llofnod:

Enw:.....

Safle:.....

Dyddiad:.....